

Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2023

Addysg Cymru 2023 Rhif WG23-18

Trosolwg

Mae Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2023 yn cynnig cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sydd yn cychwyn rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd ym mis Medi 2023 a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.

Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddarparu cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i hybu recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Sefydlwyd Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2023 ("y Cynllun hwn") drwy arfer y pwerau hynny.
2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2023 ac mae'n berthnasol i Gymru.
3. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y Cynllun hwn o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr achrededig sy'n arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cynllun hwn.
4. Mae'r ddogfen hon yn ceisio nodi amlinelliad byr o sut y bydd y cynllun hwn yn gweithredu a dibenion talu'r grant.

Crynodeb o'r Cynllun

5. Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau i fyfyrwyr ôl-raddedig uwchradd AGA, sy'n astudio eu rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Gymraeg fel pwnc.
6. Bydd y taliadau ar ffurf dau randaliad. Bydd y rhandaliad cyntaf i fyfyrwyr cymwys ar ôl iddynt gwblhau cwrs ôl-raddedig AGA uwchradd yng Nghymru sy'n arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC). Bydd y rhaglen yn galluogi'r myfyriwr cymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Gellir hawlio'r taliad cyntaf unwaith y bydd y statws SAC wedi'i dyfarnu. Bydd yr ail randaliad ar gael ar ôl cwblhau cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu gwblhau cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus fel athro neu athrawes Gymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

Dehongli

7. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun –

ystyr "dwyieithog" ("bilingual") yw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg neu berson sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg

ystyr "rhaglenni cymwys" ("eligible programmes") yw rhaglen sydd:

- a. yn rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig amser llawn neu ran-amser sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig sy'n cael ei achredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg¹, ac
- b. yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:
 - i. yn arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg Gymraeg neu ddwyieithog;
 - ii. nad yw'n arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg Gymraeg neu ddwyieithog ond sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu'n ddwyieithog;
 - iii. yn ofynnol lle mae'r hyfforddai i astudio a chyflawni modiwl astudiaethau proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg fel y cofnodwyd yng Nghofnod Myfyriwr HESA.²

ystyr "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yw myfyriwr â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw³;

ystyr "cyflogedig" ("*employed*") yw wedi'i gyflogi o dan gontract cyflogaeth neu wedi'i gyflogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan gontract cyflogaeth a dylid dehongli "cyflogaeth" ("*employment*") yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu o dan unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

mae i "statws athro cymwysedig neu statws athrawes gymwysedig" yr ystyr a roddir i "qualified teacher" gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"⁴ a wnaed o dan adran 132 o'r Ddeddf honno o dro i dro.

ystyr "ffurflen hawlio berthnasol" ("*relevant claim form*") yw ffurflen y mae Gweinidogion Cymru'n gofyn i ymgeisydd ei llenwi o bryd i'w gilydd er mwyn gwneud cais am grant o dan y cynllun hwn.

Grantiau cymell

8. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau i fyfyrwyr sy'n gymwys i gael grantiau o'r fath o dan y Cynllun hwn o dan y paragraff hwn ("grantiau hyfforddi") ar ffurf cymhellion i fyfyrwyr sy'n bodloni gofynion paragraff 10.
9. Mae'r grantiau a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 12 i 15.

¹ Sefydli'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon CGA yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 ac fe gyfeirir ato o fewn y rheoliadau hynny fel Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

² Mae hyn yn cyfeirio at fodiwl 'MODSBJ' a'r dynodydd HCA dwyieithog 'BITTM' yng nghofnod myfyriwr HESA.

³ Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2022 i 31 Awst 2023 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn mewn grym am y flwyddyn academaidd 2023/24.

⁴ Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, O.S. 2012/724 (Cy. 96)

Pwy sy'n gymwys i gael grantiau hyfforddi

10. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i unigolyn:-

- a. fod wedi dilyn rhaglen gymwys yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2023 ond cyn 1 Medi 2024.
- b. fod yn fyfyrwr cymwys;
- c. heb fod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoes;
- d. heb fod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes;
- e. heb fod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;
- f. mewn perthynas â rhandaliad cyntaf y grant hyfforddi, fod wedi cwblhau rhaglen gymwys yn llwyddiannus ac ennill Statws Athro Cymwysedig yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, a;
- g. mewn perthynas ag ail randaliad y grant hyfforddi, fod wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus o fewn tair blynedd ar ôl ennill Statws Athro Cymwysedig mewn: ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu fod wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus fel athro neu athrawes Gymraeg mewn unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol (Cymru) 2015, a bod wedi derbyn y rhandaliad cyntaf.

11. Mae myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cynllun cymhelliant hwn hefyd yn gymwys i hawlio cymhellion eraill ar gyfer hyfforddiant athrawon ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cynlluniau hynny yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

Amodau

12. Ni thelir grant i unigolyn o dan baragraffau 8 a 9 oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu.

13. Caiff Gweinidogion Cymru yn ôl eu disgrisiwn beidio â thalu grant hyfforddi i unigolion a gafodd eu derbyn ar raglen gymwys wedi i'r cwrs hwnnw gyrraedd y targed derbyn ar ei gyfer (fel y nodwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).

14. Bydd grantiau hyfforddi (boed yn SAC neu'n rhandaliad terfynol) a all fod yn ddyledus i unigolion cymwys a ddechreuodd raglen gymwys mewn un flwyddyn academaidd, ond yna, ar ôl gohirio, a ailgydiodd yn y rhaglen y flwyddyn academaidd nesaf, yn parhau i gael eu talu yn ôl y gyfradd a oedd yn berthnasol (os o gwbl) o dan y Cynllun y flwyddyn academaidd y dechreuodd eu hastudiaethau, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn mynegi yn ysgrifenedig eu bod, yn ôl eu disgrisiwn, yn penderfynu fel arall.

15. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu gyfan o unrhyw grant a dalwyd o dan baragraffau 8 a 9 yn cael ei ad-dalu:-

- a. os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;
- b. os oes tystiolaeth nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs, neu nad oedd, ar ôl ei gwblhau, erioed wedi bwriadu mynd i addysgu.


Talu'r grant

16. Caiff grantiau o dan baragraffau 8 a 9 eu talu mewn dau ôl-daliad ac ar ba bynnag adegau a benderfynir gan Weinidogion Cymru, a chaiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod y ddau randaliad yn cael eu talu erbyn dyddiadau penodol ar ôl i'r myfyriwr gwblhau'r SAC a'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.
17. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid i sefydliad sy'n darparu rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon ôl-radd achrededig gymwys, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hynny, i'w dalu i unigolyn cymwys sydd ar raglen AGA ôl-radd gymwys.
18. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid i Gyngor y Gweithlu Addysg, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hynny, i'w dalu i unigolyn cymwys, wedi i'r unigolyn cymwys gwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

Gweinyddu

19. Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i sefydliadau sy'n darparu rhaglenni AGA ôl-radd achrededig, sy'n derbyn cyllid o dan baragraff 17, i gydnabod y costau gweinyddol a'r costau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â gwneud taliadau o dan y paragraffau hynny. Bydd gofyn i'r sefydliadau, fel rhan o amodau unrhyw daliad o'r fath, ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (gweler paragraff 3).
20. Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i Gyngor y Gweithlu Addysg i gydnabod y costau gweinyddol a'r costau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â gwneud taliadau o dan baragraff 18. Bydd gofyn i Gyngor y Gweithlu Addysg, fel rhan o amodau unrhyw daliad o'r fath, ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (gweler paragraff 3).

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru



Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg